30/111

6292

FFURF GWEDDI

I'w Harfer

Ar Ddydd *Mercher* y Pummed Dydd o fis *Ebrill*, yr hwn ſydd ddiwrnod YMPRYD wedi dreſn drwy gyhoeddus orchymyn y Brenhin, *&c.*

Drwy yſpyſol Orchymmyn ei Fawrhydi.

Y Dreſn am Weddi Foreuol.

¶ *Darllenned y gwenidog a lleſſ uchel y ſynhwyrau hun o'r ſcrythur lan, ac yw yn canlyn yr annogaeth, y gyffes gyffredin a'r gweddiau, megis yn y llyfr Gweddi gyffredin.*

TRugareddau yr Arglwydd yw na ddarfu am danom ni: o herwydd ni phalla ei doſturiaethau ef.

Coſpa ni, Arglwydd, etto mewn barn; nid yn dy lid, rhag it' ein gwneuthur yn yn ddiddim.

¶ *Yn lle 'r* Venite, Exultemus, *y'r arferir yr Hymn yma ſydd yn canlyn.*

DEuwch, ymddaroſtyngwn ein hunain ac ymgrymmwn i lawr o flaen yr Arglwydd ein Duw.

Fel y caffun ras drwy 'r hwn y gwaſnaethom Dduw wrth i ſodd, gyd a gwylder, a phurchedig ofn.

Edifarhawn a galwn ar Dduw yn lew, dychwelwn bob un oddi wrth ei ſlordd ddrygionus.

Felly yr Arglwydd a dry oddi wrth angerdd ei dig fel na ddiſethir ni.

A Trugarha

LLYFRG.
GEN.
CYMRU

Trugarha wrthym, O Dduw, yn ol dy drugarogrwydd; yn ol lliaws dy dofturiaethau dilea ein anwireddau.

Canys yr ym yn cydnabod ein camweddau: a'n pechodau ſydd yn waſtad gar ein bron.

Arglwydd, os creffi ar Anwireddau: O Arglwydd, pwy a ſaif?

Onid y mae gyda thi faddeuant ſel i'th ofner.

Ni fyrhawyd dy law, fel na allai achub, ac ni thrymhaodd dy gluſt, fel na allai glywed.

Ti addewaiſt, O Arglwydd, cyn galw o honom, yr attebi: a nyni etto yn lleſaru, y gwrandewi.

O Arglwydd, na cherydda ni yn dy lidiawgrwydd, ac na choſpa ni yn dy lid.

Er mwyn dy enw, Arglwydd, maddau ein anwiredd: canys mawr yw.

Tro dy wyneb oddi wrth ein pechodau: a delea ein holl anwireddau.

Crea galonnau glan ynom, O Dduw; ac adnewydda yſpryd uniawn o'n mewn.

Cynnorthwya ni, O Dduw ein iechydwriaeth, er mwyn gogoniant dy enw: Gwared ni hefyd, a thrugarha wrth ein pechodau, er mwyn dy enw.

O Arglwydd ein Duw, ynoti yr ymddiriedaſom: achub ni rhag ein holl erlidwyr, a gwared ni.

Gwna ddaioni, yn dy ewyllyſcarwch i Sion: adeilada furiau Jeruſalem.

A ninneu dy bobl, a defaid dy borfa, a'th foliannwn di yn dragywydd: datcanwn dy foliant o genhedlaeth i genhedlaeth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r yſpryd Glan;

Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

Pſalmau Priod. II. CH. CXXII.

Litbiau Priod. { Y Gyntaf. *Jer.* XII. / Yno y canlyn, *Te Deum Laudamus.* / Yr Ail. *St. Luc.* XIII.

Yno y canlyn, Jubilate Deo; *y* Credo; *a gweddi* Arglwydd *fel yn y Llyfr Gweddi-gyffredin.*

¶ *Yn*

¶ *Yn lle y gwerſiclau cyffredin yr arferir y rhai hyn.*

Offeir. Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.
Atteb. A chaniadha i ni dy jechydwriaeth.
Off. Arglwydd, cadw y Brenin.
Atteb. A gwrando ni yn drugarog, pan alwom arnat.
Off. Gwiſc dy weinidogion ag jawnder.
Atteb. A gwna dy ddewiſol bobl yn llawen.
Off. Arglwydd, cadw dy bobl.
Atteb. A bendithia dy etifeddiaeth.
Off. Arglwydd, dyro dangnheddyf yn ein dyddiau.
Atteb. Gan nad oes neb arall a ymladd droſom, onid tydi Dduw yn unig.
Off. O Arglwydd, amddiffyn dy weiſion.
Atteb. Y rhai ſydd yn ymddiried ynot.
Off. Anfon i ni borth o'th ſancteiddfa.
Atteb. Ac byth yn nerthol amddiffyn ni.
Off. Na ad i'r gelyn gael y llaw uchaf arnom.
Atteb. Nac i'r enwir neſhau i'n drygu.
Off. Bydd i ni, O Arglwydd, yn Dwr cadarn.
Atteb. Rhag wyneb ein gelynion.
Off. O Arglwydd, gwrando ein gweddiau.
Atteb. A deled ein llef hyd attat.

¶ *Yn lle y Collect am y diwrnod, yr arferir y Ddau ſy'n canlyn.*

HOll-alluog Dduw a thrugaroccaf Dad; Nyni bechaduriaid truein ym yn oftyngedig yn cydnabod o'th flaen di yn bod ni yn anheilwng or lleiaf o'th holl drugareddau; Yr ydym ni yn cyfaddef, O Arglwydd, yn chwerwder ein eneidieu, ddarfod i bob gradd o honomi droſeddu dy gyfiawn farnedigaethau; a'n bod ni mor anhydyn ac na adawſom nac ith drugareddau nath goſpedigaetheu hyd yn hyn yn dwyn ni i jawn wellhau ein bucheddau, dy ddirfawr drugaredd di yw na'n difethwyd ni, i th ddaionus ragluniaeth yr ym yn ddyledwyr am ein cadwriaeth: Am ba un y mae ein heneidiau yn mawrygu ac yn bendithio dy enw gogoneddus, O Dduw, yr hwn hyd yn hyn a'n harbedaiſt, ac yn rhyfeddol a'n gwaredaiſt ni,

fel y bydde i'th ddaioni di yn tywys ni i edifeirwch: Rhynged fodd iti, O Arglwydd, o'th fawr ddaioni roddi vn-om ni oll y fath dduwiol driſtwch ac ſydd yn gweithio edifeirwch er jechydwriaeth diedifar; fal y byddo iti droi oddi wrth angerdd dy ddigllonedd i'n herbyn; a llawenychu ynomi, i wneuthur i ni ddaioni drwy haedd-edigaethau a chyfryngiad ein Harglwydd a'n unig Jachawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

O Arglwydd Tad y drugaredd, a Duw pob diddanwch, bydd raſſon a thrugarog nyni attolygwn iti, wrth bawb ſydd mewn unrhiw fan o'r byd yn dioddef er mwyn y gwirionedd. Caniatha iddynt rad i ymroi yn ewyllyſgar ac yn oſtyngedic i'th ddoeth a'th ddaionus ragluniaeth di, dod iddynt ffydd Griſtianogol a chalon wrol i ſefyll yn ddiyſgog ac yn ddiofn yn y dydd drwg, ac amſerol ymwared o'u holl gyſtuddiau. I'r diben hyn, O Arglwydd, attal ddrwgfyriad a thro galonau ei herlidwyr ac na ad dy etifeddiaeth yn warth i'th elynion: Llanwa ein eneidieu ni a Chriſtianogol doſturi wrth gyflwr truanaidd ein brodyr cyſtuddiedig, a dyro iddynt hwy a ninnew ras i gyrchu at y Nod am gamp Uchel alwedigaeth Duw ſydd o'n blaen ni drwy ffydd ac amynedd goſtyngeiddrwydd, ac addfwynder marweiddiad a hunan wadiad drwy gariad ac eluſeni a dyfal bara mewn pob daioni hyd y diwedd; a hyn a erfyniwn ni e'r mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

Ar ol hyn yr arferir y Collectau am Dangnheddyf, ac am gael Rhad, a'r Letani.

A chwedi hynny y Collect a'r Ddydd mercher y Lludw, a'r Tri Cholect yn niwedd y Comminaſiwn, &c. y rhain ſydd yn dechreu fal hyn.

Holl-alluog a thragwyddol Dduw, *&c.*
O Arglwydd ni attolygwn iti, *&c.*
O Alluoccaf Dduw a thrugaroccaf Dad, *&c.*
Ymchwel di ni, O Arglwydd daionus, *&c.*

¶ *Gweddi*

¶ *Gweddi dros holl Eglwyſi'r Proteſtaniaid.*

O Dduw Tad y Trugareddau, yr hwn o'th fawr ddaioni a'n hunaiſt ni yn nirgel gorph Criſt, yr hwn yw ei Eglwys; Nyni megis aelodau bywiol o'r un rhyw, gan alaru gyd a'r galarus, a llawenhau gyd a'r rhai ſydd yn llawen, ydym yr awr hon yn tywallt ein herfyniau a'n gweddiau wrth orſeddfainge dy rad dros yr holl Eglwyſi Proteſtanaidd; gan attolwg i ti edrych i lawr a golwg dy drugaredd a'th doſturi, ar gyflwr truanaidd a gofidus y cyfriw rai o'r Eglwyſi rheini, ag a ddarfu i ti ei traddodi i fynu i ddwylo dynnion coel-gretyddol ac annhrugarog; Na ad i'th elynion yn waſtad orfoleddu ar dy etifeddiaeth. Ymddadla dy ddadl dy hun yn erbyn y ſawl ſydd yn cablu dy wirioned ac yn erlid dy bobl, fel y dwetto pob dyn, diau fod Duw a farna ar y ddaiar. Glanha dy holl Eglwyſi oddi wrth bob ammhured a gwna nhwy yn deilwng o'th ogoneddus ymwarediad. Goleua bawb ac ſydd mewn tywyllwch a chamſynniad, a chaniadha iddynt edifeirwch i gydnabod y gwirionedd, fal y byddo i holl derfynau y ddaiar gofio, ac ymchwelyd at yr Arglwydd, ac fel y gallom ni oll ddyfod i fod yn un praidd dan yr un bugail mawr ac Eſcob ein heneidiau Jeſu Criſt ein bendigedig Jachawdwr a'n Prynnwr. *Amen.*

¶ *Ar ol hyn y canlyn y Weddi dros oruchel lys y Parliament, Dialweh cyffredinawl, Gweddi S.* Chryſoſtom, 2 Cor. 13. 14. *Gwaſanaeth y cymmyn, a'r Colect ſy'n canlyn yn neſaf o flaen yr Epiſtol a'r Efengyl.*

O Arglwydd ein Duw, yr hwn wyt yn gyfiawn yn ddiglion wrthym, o herwydd ein mawr ac amriw bechodau, dewy ba rai y darfu i ni ennyn dy ddigofaint a'th farn i n herbyn, ac am ba rai y mae i ni achos i ofni i ti ein rhoi ni i fynu i ddwylaw ein gelynnion. Gwrando ni, nyni attolygwn itti, y rhai ydym yn ymddaroſtwng o'th flaen di mewn gweddi ac ympryd. Caniadha i ni y fath ddwys ac iawn yſtyriaeth o n camweddau ac a weithredo ynom [illegible] driſtwch i edifeirwch diedifar: Fel y byddo i ti, ein Duw graſlawn (wedi ymgymmodi a ni

gr

er mwyn dy anwyl fab ein Hiachawdwr) ein cydnabod ni yn bobl iti dy hyn, a bod yn ymddiffyn i ni yn erbyn holl elynnion dy wir grefydd di a Sefydlwydd yn ein plith ni; ac y gallom ninneu, gan fyw yn ddiogel dan dy nodded, a rhodio yn addas i ti mewn pob rhyngy bodd, byth ogoneddu dy Sanctaidd enw, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 *S.* Pet. iv. *v.* 12. *hyd y diwedd.*
Yr Efengyl. S. Matth. 25. *v.* 31. *hyd y diwedd.*

¶ *Yma y dywedir y* Credo, *ar ol hynny y bregeth, ac Wedi hynny rhai o'r Sentenſiau ſydd ar ol y Credo, ar Weddi dros holl Stat Eglwys Griſt; ar ol hynny y gweddiau hyn ſy 'n canlyn.*

O Dduw, Tad ein Harglwydd Jeſu Griſt ein unig Jachawdwr, Tywyſog tangnhefydd, edrych i lawr drwy fawr doſturi a thrugaredd ar yr Eglwys a'r Deyrnas hon ſydd yn awr yn ymgais a thi, mewn Ympryd a gweddi; A chaniatha, nyni attolygwn i ti, fod i'n ymddaroſtwngiad a'n hedifeirwch weithredu ynom ni y cyfriw effaith gwynfydedig, fel y bo ini ein puro ein hunain oddiwrth bob halogrwydd cnawd a'r yſpryd, gan berffeiddio Sanctteiddrwydd yn ofn Duw. Dyro i ni ras, o Dduw, o ddifrif i yſtyr y dirfawr berigl; dan ba un yr ydym drwy ein hymrafaelion a'n hangydfod anedwydd. Tyn ymaith bob caſineb a drwgdyb a phob peth arall a'n rhwyſtra ni oddiwrth dduwiol undeb a chydgordio: Fel megis nad oes ond un corph, ac un yſpryd, ac un Gobaith ein Galwedigaeth, un Arglwydd, un Fydd, un Bedydd, un Duw, a'n Tad ni oll; felly y gallom o hyn allan fod i gid o un galon ac un enaid, wedi ein huno mewn un Sanctaidd Rwymyn, Gwirionedd a Thangnhefydd, Fydd a Chariad perffaith, ag y gallom ag un meddwl ac ag un galon dy ogoneddu di, o Dduw, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Gweddi dros ein gelynion.*

O Duw Tad y trugareddau, a charwr eneidieu, yr hwn wyt ddaionus i'r rhai aniolchgar a drwg, ac a orchymynaiſt i ninneu helaethu ein cariad i'r rhai a'n caſant:

aſant: Nyni attolygwn i ti ſod yn drugarog a thoſturiol wrth y rhai ſydd heb gyfiawn achoſ yn elynion inni; Diddymma ei bwriadau, dyro iddynt iawn wybodaeth a gwir yſtyriaeth o'i balchder a'i malais in herbyn; Tywallt dy gariad iw calonnau, cynnyſcaedda hwynt ag yſpryd addfwyn goſtyngedig cariadus, fal y byddo llawenydd yn y nef a'r ddaiar am ei dychweliad ai hedifeirwch hwynt drwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Ymma y canlyn y weddi ſydd yn dechreu fal hyn, Hollalluog Dduw yr hwn a addewaiſt wrando eirchion, &c. Tangnheddyf Duw, &c.*

Y Dreſn am Brydnhawnol Weddi.

Pſalmau Priod. 79. 94. 129. 131.

Llithoedd { *Y Gyntaf* Galarnad. 3. *v.* 22. *hyd y diwedd.* / *Yr Ail* Hebr. 10. *v.* 19. *hyd y diwedd.*

¶ *Ar ol gweddi'r Arglwydd, darllennir, y gwerſiclau yn y foreuol Weddi.*

¶ *Yn lle y colect am y diwrnod y darllennir y rhwn ſy'n canlyn.*

O Dduw graſuſaf, dy anfeidrol drugaredd di yw na ddarfu am danom ni, ac o herwydd na phalla dy doſturiaethau di; gan nad allodd yr un o amriw weithredoedd dy ragluniaeth ein tywys ni i edifeirwch. Mae arnom gwilydd i godi ein golygon tua'r Nefoedd, o herwydd i ni ein gwneyd ein hunain mor hollawl anheilwng o'th nawdd a'th gariad di drwy ein aneirif bechodau i'th erbyn. Ond etto i ba le yr awn ni am drugaredd, onid attat, ti O Arglwydd, yr hwn ni ddeiſyfi farwolaeth pechadur, ond yn hytrach ymchwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd a byw; Nyni attolygwn i ti, ganniadhau i ni y fath ddwys ac iawn yſtyriaeth o'n holl bechodau, fal y byddo i ni o ddifri eu caſhau ac ymadel a hwynt, ac oddi-yno bydd drugarog wrthym

er mwyn dy anwyl fab ein Hiachawdwr) ein cydnabod ni yn bobl iti dy hyn, a bod yn ymddiffyn i ni yn erbyn holl elynnion dy wir grefydd di a Sefydlwydd yn ein plith ni; ac y gallom ninneu, gan fyw yn ddiogel dan dy nodded, a rhodio yn addas i ti mewn pob rhyngy bodd, byth ogoneddu dy Sanctaidd enw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. 1 S. Pet. iv. *v.* 12. *hyd y diwedd.*
Yr Efengyl. S. Matth. 25. *v.* 31. *hyd y diwedd.*

¶ *Yma y dywedir y* Credo, *ar ol hynny y bregeth, ac Wedi hynny rhai o'r Sentensiau sydd ar ol y Credo, ar Weddi dros holl Stat Eglwys Grist; ar ol hynny y gweddiau hyn sy 'n canlyn.*

O Dduw, Tad ein Harglwydd Jesu Grist ein unig Jachawdwr, Tywysog tangnhefydd, edrych i lawr drwy fawr dosturi a thrugaredd ar yr Eglwys a'r Deyrnas hon sydd yn awr yn ymgais a thi, mewn Ympryd a gweddi; A chaniatha, nyni attolygwn i ti, fod i'n ymddarostwngiad a'n hedifeirwch weithredu ynom ni y cyfriw effaith gwynfydedig, fel y bo ini ein puro ein hunain oddiwrth bob halogrwydd cnawd a'r yspryd, gan berffeiddio Sancteiddrwydd yn ofn Duw: Dyro i ni ras, o Dduw, o ddifrif i ystyr y dirfawr berigl; dan ba un yr ydym drwy ein hymrafaelion a'n hangydfod anedwydd. Tyn ymaith bob cafineb a drwgdyb a phob peth arall a'n rhwystra ni oddiwrth ddduwiol undeb a chydgordio: Fel megis nad oes ond un corph, ac un yspryd, ac un Gobaith ein Galwedigaeth, un Arglwydd, un Fydd, un Bedydd, un Duw, a'n Tad ni oll; felly y gallom o hyn allan fod i gid o un galon ac un enaid, wedi ein huno mewn un Sanctaidd Rwymyn, Gwirionedd a Thangnhefydd, Fydd a Chariad perffaith, ag y gallom ag un meddwl ac ag un galon dy ogoneddu di, o Dduw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Gweddi dros ein gelynion.*

O Duw Tad y trugareddau, a charwr eneidieu, yr hwn wyt ddaionus i r rhai aniolchgar a drwg, ac a orchymynaist i ninneu helaethu ein cariad i'r rhai a'n casant:

aſant: Nyni attolygwn i ti ſod yn drugarog a thoſturiol wrth y rhai ſydd heb gyfiawn achos yn elynion inni; Diddymma ei bwriadau, dyro iddynt iawn wybodaeth a gwir yſtyriaeth o'i balchder a'i malais in herbyn; Tywallt dy gariad iw calonnau, cynnyſcaedda hwynt ag yſpryd addfwyn goſtyngedig cariadus, fal y byddo llawenydd yn y nef a'r ddaiar am ei dychweliad ai hedifeirwch hwynt drwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Ymma y canlyn y weddi ſydd yn dechreu fal hyn; Hollalluog Ddaw yr hwn a addewaiſt wrando eirchion, &c. Tangnheddyf Duw, &c.*

Y Drefn am Brydnhawnol Weddi.

Pſalmau Priod. 79. 94. 129. 131.

Llithoedd { *Y Gyntaf* Galarnad. 3. *v.* 22. *hyd y diwedd.* / *Yr Ail* Hebr. 10. *v.* 19. *hyd y diwedd.*

¶ *Ar ol gweddi'r Arglwydd, darllennir, y gwerſiclau yn y foreuol Weddi.*

¶ *Yn lle y colect am y diwrnod y darllennir y rhwn ſy'n canlyn.*

O Ddaw graſuſaf, dy anfeidrol drugaredd di yw na ddarfu am danom ni, ac o herwydd na phalla dy doſturiaethau di; gan nad allodd yr un o amriw weithredoedd dy ragluniaeth ein tywys ni i edifeirwch. Mae arnom gwilydd i godi ein golygon tua'r Nefoedd, o herwydd i ni ein gwneyd ein hunain mor hollawl anheilwng o'th nawdd a'th gariad di drwy ein aneirif bechodau i'th erbyn. Ond etto i ba le yr awn ni am drugaredd, onid attat, ti O Arglwydd, yr hwn ni ddeiſyfi farwolaeth pechadur, ond yn hytrach ymchwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd a byw; Nyni attolygwn i ti, ganniadhau i ni y fath ddwys ac iawn yſtyriaeth o'n holl bechodau, fal y byddo i ni o ddifri eu caſhau ac ymadel a hwynt, ac oddi-yno bydd drugarog

wrthym

wrthym a maddeu hwynt oll, fal na thynont arnom ni y barnedigaethau y ddarfu i ni ei haeddu, ond fal y byddo i th Holl-alluog ddaioni ein cadw a'n hamdiffin, a n gwneyd ni yn bobl grefyddol, Dduwiol, a dedwydd, drwy Jeſu Griſt ein unig gyfryngwr a'n dadleuwr. *Amen.*

¶ *Yma y canlyn yr ail Colect yn y foreuol Weddi, yr hwn ſydd yn dechreu felhyn. O Arglwydd Tad y drugaredd,&c. ac a'r ol hynny y dywedir.*

Yr Ail Colect a'r Brydnhawnol Weddi.

Y Trydydd Colect am gynnorthwy yn erbyn pob peryglon.

O Arglwydd ni attolygwn iti yn drugarog, *&c.*
O Alluoccaf Dduw a thrugaroccaf Dad, *&c.*
Ymchwel di ni, O Arglwydd daionus, *&c.*
} Yn niwedd y Comminaſiwn, *&c.*

Gweddi dros Fawrhydi y Brenin.
Gweddi dros y Frenhinawl deuly.
Gweddi dros yr Eglwys-wyr a'r bobl.
Gweddi dros Holl Eglwyſi'r Proteſtaniaid.
Gweddi dros oruchel ſys y Parliament.
Y weddi ſydd neſſa ar ol y Wedd idros holl Stat Eglwys Griſt.
Y Weddi dros ein gelynion.
Diolwch cyffredinawl.
Gweddi S. Chryſoſtom.

2 Cor. 13. 14.

TERFYN.

Argraphwyd yn *Llundain* gan *Charles Bill*, ac Executris *Thomas Newcomb* fu farw, Argraphwyr i Arddercheccaf fawrhydi y Brenhin. 1699.